

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 5, Hydref, 2020 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol:** Gwyn (GW) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Richard (RR), Gareth (GER), Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (RG), Eirwen (EW),

**Ymddiheuriadau:** Dewi,

<b>1.</b>	<p><b><u>COFNODION</u></b></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25ain Mai a 3ydd Awst 2020 fel rhai cywir.</p> <p>Yn codi o gofnodion 25ain Mai</p> <p><u>Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.</u> Adroddodd EO bod Ieuan Wyn wedi llythyru yn gofyn i bobl gysylltu hefo'r Cyngor Mynydda Prydeinig ynglyn â gwarchod a pharchu enwau lleoedd yng Nghymru. Byddai'n codi'r mater gyda Gareth Pierce fel Cadeirydd y Cyngor a byddai SW yn codi'r mater yng nghyfarfod Gogledd y CMP.</p> <p><u>Dogfennau'r Clwb</u></p> <p>Adroddwyd bod IAG, Maldwyn ac Anet wedi dechrau adnabod a hel dogfennau ynglŷn â dyddiau cynnar y Clwb. Derbyniodd GW fanylion cyswllt y swyddog perthnasol yn y Llyfrgell Genedlaethol a byddai yn eu hanfon ymlaen.</p> <p><u>Cais am statws elusennol i'r Clwb</u></p> <p>Nodwyd bod y cais i gofrestru fel elusen wedi bod yn llwyddiannus a bod y Clwb yn elusen gofrestredig bellach. Diolchwyd i DAP am ei holl waith yn y broses o gofrestru</p> <p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2020/2021</u> Cadarnhaodd DP fod y trefniadau a wnaed ar gyfer cynnal darlith y Clwb yn 2020 wedi eu trosglwyddo i 2021.</p> <p><u>Materion Ariannol</u> Adroddodd EO ei fod wedi cysylltu â Haf a Dewi a chael cadarnhad fod yr holl unigolion oedd yn mynychu teithiau dydd Mercher a theithiau'r De yn aelodau.</p> <p><u>Materion CMP</u></p> <p>Adroddodd EO bod Richard Mitchley wedi cytuno y byddai'n mynychu cyfarfodydd o ganghennau y CMP yn y De a'r Canolbarth ar ran y Clwb.</p> <p>Mynegwyd diolch i Richard am ei barodrwydd i gynrychioli'r Clwb</p>	
-----------	--	--

<p><b>2. <u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2020</u></b></p>	<p>Ystyriwyd dogfen a baratowyd gan IPR ynglŷn â chynnal Cyfarfod Blynyddol 2020 drwy gyfrwng Zoom</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. Cynnal y cyfarfod ar nos Lun, 16eg Tachwedd 2020 am 7.30pm ar y llinellau a amlinellwyd yn y ddogfen</p> <p>ii. Gofyn i IAG sefydlu cyfrif arbennig Zoom i'r Clwb ar gyfer mis Tachwedd er mwyn cynnal y cyfarfod ac i DAP wneud unrhyw daliad fydd ei angen i sicrhau hynny</p>	
<p><b>3. <u>MATERION ARIANNOL</u></b></p>	<p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol a chyflwynwyd copi drafft o gyfrifon blynyddol y Clwb ar gyfer 2019/2020.</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod 281 o aelodau wedi talu'r tâl aelodaeth llawn o £20</li> <li>• ei bod yn gweithio ar y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019/2020 ac ymddengys byddent yn dangos bod gan y Clwb swm o £6,800 mewn llaw yn y Banc.</li> <li>• Er mai £20 yw'r tâl aelodaeth a bod angen talu £20.25 fel tanysgrifiad blynyddol ar gyfer bob aelod i'r CMP roedd yn credu bod sefyllfa ariannol bresennol y Clwb yn golygu y gallai ysgwyddo talu'r 25c ychwanegol ar gyfer bob aelod yn2021</li> <li>• Yn sgil hyn ni chredai fod angen i'r Clwb ail-edrych ar y tâl aelodaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf</li> </ul> <p>Cytunwyd</p> <p>i. derbyn y wybodaeth</p> <p>ii. nad oedd angen adolygu tâl aelodaeth y Clwb ar gyfer 2021.</p>	
<p><b>4. <u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></b></p>	<p>Cafwyd adroddiad gan EO ar sut roedd y rhaglen wedi gweithio yn dilyn ail-ddechrau gweithgareddau ar ôl y cyfnod clo. Credai fod y drefn o gael 2 daith wedi gweithio'n dda ac roedd yn hynod o ddiolchgar i'r holl arweinyddion a oedd wedi helpu drwy arwain teithiau.</p> <p>Nododd hefyd fod y lefelau Covid 19 yn codi mewn rhai manau yng Nghymru a bod posibilrwydd cryf y byddai rhai siroedd yn cael eu cloi a olygai na allai aelodau'r siroedd hynny deithio allan o'u hardal oni bai am resymau penodol cyfyngedig.</p> <p>Cytunwyd</p>	

	<p>i. y dylid parhau â'r drefn bresennol o gyfyngu teithiau i uchafswm o 12 aelod am y tro gyda'r rheolau perthnasol am gadw pellter ac ati yn parhau.</p> <p>ii. os bydd Sir yn mynd dan glo lleol, gall aelodau gynnal taith o fewn y sir dan sylw ar gyfer aelodau'r sir honno yn unig.</p> <p>iii. dylid cael diweddariad yn y cyfarfod ym mis Ionawr gan drefnwyr teithiau preswyl yr Alban a Lloegr yn 2021 ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol parthed unrhyw drefniadau gyda hosteli a.y.y.b. sydd wedi eu trosglwyddo i 2021.</p> <p>iv. diolch i EO am ei holl waith yn trefnu'r rhaglen mewn cyfnod heriol.</p>	
<b>5.</b>	<b><u>ASESIADAU RISG AR GYFER TEITHIAU'R CLWB</u></b>	
	<p>Adroddwyd bod DAP ac EO wedi paratoi templedi ar gyfer asesu risg ar gyfer teithiau'r Clwb a ffurflen cofnodi damweiniau/digwyddiadau</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. derbyn a mabwysiadau y dogfennau dan sylw</p> <p>ii. diolch i EO a DAP am eu gwaith.</p>	
<b>6.</b>	<b><u>MATERION CMP</u></b>	
	<p>Adroddodd SW bod y CMP wedi bod yn edrych ar gynlluniau Partneriaeth Eryri ynglŷn â threfniadau parcio a'r problemau a welwyd eleni a mynegwyd pryder na fu unrhyw ymgynghori gyda nhw am hyn. Roedd Helen Pye o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cytuno i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol os angen gyda'r gobaith y byddai hyn yn hwyluso cyfathrebu am gynlluniau'r Bartneriaeth i'r dyfodol.</p> <p>Roedd Gareth Pierce wedi datgan nad oedd am barhau yn ei swydd fel Cadeirydd y CMP pan ddaw ei dymor i ben. Yn sgil hyn roedd y CMP wedi dechrau ar y gwaith o chwilio am ei olynydd.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i SW am ei adroddiad.</p>	
<b>7.</b>	<b><u>Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></b>	
	<p>Adroddwyd gan RG na chafodd y Bartneriaeth gyfle i ail-drefnu'r cwrs cymorth cyntaf ar gyfer rhai o aelodau'r Clwb . Hefyd roedd Sian Williams, un o swyddogion y Bartneriaeth wedi cysylltu yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o gyrsiau sydd i'w gweld ar wefan y Bartneriaeth a'u bod yn agored i aelodau eu mynychu.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. nodi'r wybodaeth a diolch i RG am ei waith</p> <p>ii. gofyn i EO dynnu sylw at y cyrsiau sydd ar wefan Bartneriaeth pan yn cysylltu â'r aelodaeth.</p>	

**8. CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR**

Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 7.30pm, nos Lun 11eg Ionawr 2021 drwy gyfrwng Zoom.